Neges gan y Prif Weithredwr

Annwyl gyfaill,

(Please scroll down for English)

Mae'n flwyddyn union ers i ni gau ein gwasanaethau o ganlyniad i'r pandemig ac mae'n amserol felly i mi eich diweddaru ar ein sefyllfa ac i ddiolch i chi am eich cefnogaeth drwy gyfnod sydd wedi bod yn her i bawb.

Dyma'r flwyddyn fwyaf heriol yn hanes yr Urdd wrth i ni golli 54% o'n gweithlu (170 swydd), wynebu gostyngiad incwm o £14M a gweld colled o dros £1M.

Llwyddwyd i dderbyn cyfanswm o £4.5M yn ystod y flwyddyn drwy sawl ffynhonnell cyllid COVID Llywodraeth Cymru. Mae cefnogaeth y Llywodraeth drwy gydol y 12 mis diwethaf wedi bod yn allweddol er mwyn sicrhau bod yr Urdd yn goroesi, bod y gwaith cyfalafol sylweddol yn parhau yn y gwersylloedd ac ein bod yn gallu ail adeiladu ac rydym yn hynod ddiolchgar o'r gefnogaeth hon.

Mae cenedlaethau'r dyfodol wedi cael ei effeithio mwy na neb oherwydd y pandemig. Wrth i ni symud mewn i gyfnod newydd, rydym yn gwneud hyn gydag agwedd bositif er mwyn unwaith eto cynnig cynlluniau cyffrous a chyfleoedd amhrisiadwy drwy'r Gymraeg i blant a phobl ifanc Cymru.

Dyma flas o'r hyn rydym wedi cyflawni a beth sydd ar y gweill:

Ymgyrch Recriwtio

Mae'r gefnogaeth ariannol ddiweddaraf gwerth £1.3M gan Lywodraeth Cymru yn ein caniatáu i fuddsoddi yn ein gweithlu ac ail sefydlu ein gwasanaethau. Yn yr wythnosau nesaf fe fydd gennym ymgyrch recriwtio cenedlaethol i gynnig hyd at 40 o swyddi llawn amser ac 20 o gyfleodd prentisiaethau. Lleolir y swyddi ar hyd a lled Cymru ac ar draws gwasanaethau'r Urdd.

Gwersylloedd

Mae buddsoddiad o £7M wedi'i ddynodi er mwyn moderneiddio a chynyddu ar y nifer o lefydd aros yng Ngwersyll Glan-llyn a Llangrannog. Dros y 12 mis diwethaf, trawsnewidiwyd adeilad Glan-llyn Isa' ar safle Glan-llyn i mewn i lety hunangynhaliol i letya 40 person, yn arbennig felly ar gyfer ein haelodau 14+ oed. Bydd y gwaith o foderneiddio elfennau o safle Llangrannog yn barod erbyn hydref 2021.
Yn ogystal bydd y gwaith o drawsnewid pedwerydd Gwersyll yr Urdd ar safle Pentre' Ifan yng ngogledd Sir Benfro i Wersyll Lles ac Amgylcheddol cyntaf yr Urdd yn dechrau'n fuan iawn.

Prentisiaethau

Parhawyd i ddarparu cyfleoedd i'n 104 o brentisiaethau a sefydlwyd partneriaethau darparu newydd gyda Mudiad Meithrin a Choleg Gŵyr i gynnig prentisiaethau allanol yn y Gymraeg.
Bydd 12 aelod o staff newydd yn cael eu hapwyntio yn fuan er mwyn gwireddu ein dyhead i fod yn brif ddarparydd prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y trydydd sector yng Nghymru gan greu 300 o brentisiaethau mewnol ac allanol dros y tair blynedd nesaf.

Chwaraeon

Wrth lacio'r cyfyngiadau yn ystod tymor yr Hydref, llwyddwyd i ail gydio yn ein darpariaeth wyneb yn wyneb drwy gynnal 137 o glybiau chwaraeon wythnosol yn ein cymunedau. Rydym hefyd wedi darparu sesiynau Llythrennedd Corffol i nifer o ysgolion cynradd ar hyd y wlad. Yn ystod y clo mawr, gweithredwyd sawl prosiect digidol llwyddiannus gyda niferoedd uchel yn cofrestru mewn sesiynau lles, #ActifAdre a hyfforddiant i arweinwyr ifanc. Diolch i Chwaraeon Cymru am gefnogi'r prosiectau hyn.

Eisteddfod a'r Celfyddydau

Drwy gydweithio llwyddiannus rhwng S4C a BBC Radio Cymru crewyd y digwyddiad arloesol - Eisteddfod T. Denwyd dros 6,000 o gystadleuwyr, roedd 25 awr o ddarlledu byw a 80 o gystadlaethau gyda'r pwyslais ar hwyl trwy'r celfyddydau mewn cyfnod heriol. Mae trefniadau Eisteddfod T 2021 ar y gweill ac rydym yn hyderus y bydd yn ŵyl fwy nac erioed! Cynhaliwyd sesiynau digidol 'Cefn Llwyfan' i aelodau 16+ gan gynnig cyngor datblygu gyrfa gelfyddydol i bobl ifanc trwy rannu profiad arbenigwyr ac enwogion y maes.

Cyswllt Cymunedol

Yn anffodus mae nifer o blant a phobl ifanc wedi colli'r cyfle i siarad Cymraeg drwy'r cyfnod clo ac felly roedd yn flaenoriaeth i ni sicrhau amrywiaeth o gyfleoedd hwyliog i alluogi'n aelodau i ymwneud a'r Gymraeg trwy'r pandemig. Mae 'Y Sgwrs' wedi bod yn gyfres wythnosol lwyddiannus i bobl ifanc gael trafod y materion sydd yn berthnasol yn eu bywydau, gyda'r ' Awr Fawr', 'Yr Awr Fwy' a 'Cymraeg Bob Dydd' i ddysgwyr hefyd yn sesiynau i gadw cyswllt a chael hwyl yn y Gymraeg.

Prosiectau Rhithiol Rhyngwladol

Addaswyd y Neges Heddwch ac Ewyllys da yn 2020 i ymateb i'r pandemig ac roedd ei chyrhaeddiad yr uchaf erioed – 37 miliwn mewn 40 gwlad ac fe'i cyfieithwyd i 55 iaith. Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda myfyrwyr Prifysgol Abertawe i greu a rhannu neges 2021, sydd ar y thema o Gydraddoldeb i Ferched.

Gyda chyfyngiadau wyneb y wyneb parhawyd ein perthynas rhyngwladol yn rhithiol! Cyd-gynhyrchwyd y fideo cerddoriaeth gyntaf erioed yn y Gymraeg a'r Wyddeleg ar y cyd gyda TG Lurgan, a gwyliwyd y fideo dros 100,000 o weithiau. Lansiwyd partneriaeth newydd rhwng Prifysgol Birmingham Alabama a'r Urdd gan ffurfio côr gospel rhwng myfyrwyr y brifysgol ac aelodau hŷn yr Urdd, ac edrychwn ymlaen at adeiladu ar y partneriaethau yma.

Het i Helpu!

Diolch i gefnogaeth gan rhai o chwaraewyr blaenllaw'r Gymdeithas Bêl-droed, enwogion Cymru a'n cefnogwyr mae ein hetiau i'w gweld ym mhob cwr o'r byd! Daeth yr ymgyrch â gwên i'r wyneb, trowyd Cymru yn goch, gwyn a gwyrdd a llwyddwyd i godi dros £100,000 i'n cefnogi. Mae ein gwerthfawrogiad i'r miloedd wnaeth brynu'r hetiau yn anferth.

Diolch i'n haelodau, gwirfoddolwyr a'n partneriaid am eich cefnogaeth ac edrychwn ymlaen at y dyfodol yn bositif.

Cofion gorau a chadwch yn saff,

Siân

English version

It is exactly one year since we closed our services and therefore timely to update you on our position and to thank you for your support through what has been a difficult time for us all.

This has been the most challenging year in the Urdd's 99-year history as we have lost 54% of our workforce (170 jobs), faced an income reduction of £14M and a loss of over £1M.

We are extremely grateful for the support of the Welsh Government, as a total of £4.5M has been received during the year through several Welsh Government COVID funds. This support has been instrumental in ensuring the survival of the Urdd, that capital works continue and that we can rebuild to the future.

Future generations have been affected more than anyone by this pandemic. As we move into a new era, we are positive and hopeful for the future and look forward to once again offering exciting activities and invaluable opportunities through the medium of Welsh to the children and young people of Wales.

Here is a brief update on what we have achieved and our future plans:

Recruitment Campaign

Due to the recent financial support (£1.3M) by the Welsh Government, in the coming weeks, we will run a national recruitment campaign offering up to 40 full-time jobs and 20 apprenticeship opportunities. These posts are located throughout Wales and across all of the Urdd's services.

Residential Centres

Over £7M capital investment has been allocated to modernise and increase accommodation capacity at our Residential Centre near Bala and in Llangrannog. During the past 12 months, 'Glan-llyn Isa' on the grounds of Glan-llyn has been transformed into a new self-contained accommodation centre for 40 people and aimed at our 14+ members. Substantial work is currently underway at Llangrannog which will be ready in the Autumn of 2021.

Work will also begin very soon on the development of a fourth Residential Centre for the Urdd at the Pentre Ifan site in north Pembrokeshire which will be transformed into the Urdd's first Wellbeing and Environmental Centre.

Apprenticeships

We have been able to continue to provide opportunities for our 104 apprentices and establish new delivery agreements with Mudiad Meithrin and Gower College to offer external apprenticeships in Welsh.

12 new members of staff will be appointed very soon to fulfil our ambition of being the leading apprenticeship provider through the medium of Welsh in the Third Sector in Wales by creating 300 internal and external apprenticeships over the next three years.

Sports

With the easing of restrictions during the Autumn term, we were able to re-engage with our face-to-face provision running 137 weekly community sports clubs as well as providing physical literacy sessions to primary school across Wales.

During the lockdown, several successful digital projects were implemented, and hundreds enrolled in our wellness sessions, #ActifAdref sports classes and training sessions for young leaders. We are very grateful to Sport Wales for supporting these projects.

Eisteddfod and the Arts

Due to the successful collaboration with S4C and BBC Radio Cymru we launched the innovative digital Eisteddfod - "Eisteddfod T" in May 2020. Over 6,000 competitors took part, with 25 hours of live broadcasting and 80 competitions with the emphasis of Eisteddfod T on fun for all in the arts. 2021 will see Eisteddfod T return and we are confident it is going to be bigger and better!

'Cefn Llwyfan' provided digital sessions for our 16+ members by offering arts career development advice and sessions by a variety of industry leaders and experts.

Community

Unfortunately, many children and young people have missed out on the opportunity to use their Welsh during the lockdowns and so it was a priority for us to ensure a variety of fun opportunities to enable our members to engage with the Welsh language throughout the pandemic. 'Y Sgwrs' (The conversation) has been a very successful weekly series for young people allowing them opportunities to discuss issues relevant to their lives. 'Yr Awr Fawr', 'Yr Awr Fwy' and 'Cymraeg Bob Dydd' for learners have also been busy and fun sessions to keep our members active and have fun in Welsh.

International Projects

The Urdd's Message of Peace and Goodwill was adapted in 2020 to respond to the global pandemic and it was the most successful message of all time – reaching 37 million, 40 countries and translated into 55 languages. We are currently working with students at Swansea University to create the 2021 message on the theme of Equality for Women & Girls.

Our international partnerships have continued in virtual ways! The first-ever music video in Irish and Welsh was co-produced in conjunction with TG Lurgan with the video being viewed over 100,000 times. A new partnership between the University of Alabama at Birmingham and the Urdd was launched with a gospel choir of University students and Urdd members performing in Welsh for Thanksgiving. We look forward to building on these partnerships in the future.

A Hat to Help!

Thanks to the support of the FAW and some of Wales's most famous footballers, celebrities and supporters, our hats have been spotted all over the world! The campaign brought smiles to people's faces as Wales was turned red, white, and green and over £100,000 was raised to support us. We are so very grateful to the thousands who have bought the hats.

A big DIOLCH to our members, volunteers, and partners for your support.

We look forward to a positive future.

Best wishes and keep safe,

Siân